

Swyddog Cyfathrebu (Hyrwyddo)(Cyfnod Mamolaeth)

Disgrifiad swydd

Fel aelod o dîm byddwch yn gyfrifol am ddweud wrth y byd am raglenni, cynnwys a gwasanaethau S4C.

Byddwch yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau a thechnegau i gyfleu negeseuon, denu gwylwyr a chynnal trafodaeth rhwng S4C a'i rhan-ddeiliaid.

O dan arweiniad y Pennaeth Gweithrediadau Cyfathrebu byddwch yn gyfrifol am:

- Llunio a gweithredu cynlluniau hyrwyddo aml-gyfrwng er mwyn codi ymwybyddiaeth a denu gwylwyr i raglenni, cyfresi a gwasanaethau S4C, ar sgrin ac ar-lein.
- Bod yn bwynt cyswllt ymgyrchoedd rhwng aelodau tîm hyrwyddo, cynhyrchwyr a chomisiynwyr gan gydlynw'r a gyrru'r cynllun.
- Adnabod a defnyddio dulliau aml-gyfrwng hyrwyddo yn ôl yr angen, er enghraifft e-bost, hysbysebu, noddi, cystadlaethau ac yn y blaen. Hyrwyddo rhaglenni a chyfresi gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol addas i'r cynnwys a'r gynulleidfa arfaethedig.
- Clipio rhaglenni a gweithio gyda cynhyrchwyr mewnol i sicrhau deunydd fideo hyrwyddo addas.
- Trefnu unrhyw ddangosiad/ddigwyddiad lansio gan sicrhau cynulleidfa a sylw i'r digwyddiad.
- Cyfrannu at drefnu presenoldeb S4C ym mhrif ddigwyddiadau Cymru ac yna bod yn bresennol yn ystod y digwyddiad (weithio ar benwythnosau/nosweithiau neu gwyliau banc).
- Trefnu digwyddiadau corfforaethol S4C e.e. cyfarfodydd cyhoeddus, lansiadau ac yn y blaen.
- Fel aelod o'r Adran Gyfathrebu bydd disgwyl i chi gweithio fel rhan o'r tîm hyrwyddo mewn digwyddiadau yn ogystal â threfnu/rheoli digwyddiadau cymunedol.
- Bydd disgwyl i chi werthuso'ch gwaith er mwyn sicrhau fod y gwaith wedi cyrraedd y nod, ac yn darparu gwerth am arian.

Ymhlith cyfrifoldebau eraill byddwch yn gyfrifol am (heb gyfyngiad):

- Cyfrannu i syniadau creadigol.
- Ysgrifennu copi ar gyfer deunyddiau hyrwyddo a negeseuon chyfryngau cymdeithasol.
- Clipio rhaglenni ar gyfer negeseuon hyrwyddo.
- Briffio'r cwmni prynu cyfryngau er mwyn chynllunio ymgyrchoedd aml-gyfrwng.
- Briffio dylunwyr ar ymgyrchoedd gan sicrhau fod yr holl waith yn cydymffurfio â chanllawiau brand S4C ac yn adlewyrchu cynnwys y rhaglenni yn gywir.
- Trefnu props, sgriptiau, caneuon a gwisgoedd ar gyfer sioeau plant.
- Disgwylir i chi ymgymryd ag unrhyw waith neu gyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n codi o bryd i'w gilydd.

Manyleb person

Nodweddion	Hanfodol	Dymunol
Profiad	Profiad o weithio'n llwyddiannus ar ymgyrchoedd hyrwyddo. Profiad o adeiladu a datblygu perthnasau allweddol. Profiad o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn targedu ac hyrwyddo.	Profiad o drefnu a rheoli digwyddiadau. Cymhwyster iechyd a diogelwch.
Sgiliau a gwybodaeth	Sgiliau cyfathrebu rhagorol. Sgiliau ysgrifenedig rhagorol. Sgiliau trefnu a chynllunio rhagorol. Y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig.	
Nodweddion personol	Y gallu i weithio fel unigolyn ac fel rhan o dîm. Y gallu i feddwl yn greadigol.	

Manylion eraill

- Lleoliad:** Canolfan S4C:Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ. Mae S4C yn cynnig cynllun gweithio'n hyblyg
- Cyflog:** £25,506 - £29,466 yn unol â phrofiad (disgwylir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei ph/benodi ar ricyn gyntaf yr ystod gyflog)
- Cytundeb:** 9 mis yn y lle cyntaf gyda'r posibilrwydd o ymestyniad i 12 mis
- Oriau gwaith:** 35¾ awr yr wythnos ond oherwydd natur y swydd disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio ar rai penwythnosau a gwyliau banc ac mewn digwyddiadau gyda'r nos o bryd i'w gilydd. Bydd y cyflog yn cymryd i ystyriaeth yr oriau ychwanegol y mae'n bosibl y bydd angen i chi weithio.
- Cyfnod prawf:** 6 mis.
- Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl yn ystod y cyfnod 12 mis, y cyfryw gyfnod i redeg o 1 Ionawr.
- Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.



Ceisiadau

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 12:00 yn y prynhawn ar 9 Hydref 2019 i adnoddau.dynol@s4c.cymru neu'r Adran Adnoddau Dynol, S4C, Canolfan S4C:Yr Egin, Caerfyrddin SA31 3EQ.

Ni dderbynnir CV.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn y Saesneg.

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Mae S4C yn croesawu ac yn cymell ceisiadau am swyddi oddi wrth grwpiau allai fod wedi eu tangynrychioli gan gynnwys merched, pobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Gweithredir egwyddorion cystadleuaeth agored a theg a phenderfynir ar benodiadau ar sail teilyngdod.